# GWEITHDREFN AR GYFER CYFLWYNO SYLW AR-LEIN

I gyflwyno sylw ar-lein sy'n ymwneud ag adroddiad y Pwyllgor Archwilio, mae'n ofynnol i chi i fynd i wefan y Cyngor:

[www.conwy.gov.uk](http://www.conwy.gov.uk)




Dewiswch Cyngor a Democratiaeth

Yna dewiswch Democratiaeth a Chynrychiolwyr Etholedig.



Yna dewiswch Calendr, Rhaglenni, Adroddiadau a Chofnodion Cyfarfodydd




Dewiswch Calendr, Rhaglenni, Adroddiadau a Chofnodion Cyfarfodydd eto ac yna bydd rhestr o'r cyfarfodydd pwyllgor cyhoeddus yn ymddangos.




I gael mynediad at y cyfarfod gofynnol, dewiswch y cyfarfod.

Bydd hyn yn dangos rhestr o ddyddiadau cyfarfod ar gyfer y cyfarfod a ddewiswyd a byddwch yn gallu gweld rhaglenni a chofnodion y cyfarfodydd oddi yma drwy ddewis y cyfarfod.

## Sylwadau

I ychwanegu sylwadau at yr eitemau ar y rhaglen gallwch wneud hynny drwy ddewis 'Gadewch i mi ychwanegu sylwadau at eitemau'.




Yna dewiswch 'Ychwanegu sylwadau'.



Er mwyn creu cyfrif, cliciwch ar 'Cofrestru fel defnyddiwr newydd'




I gofrestru, nodwch eich enw, cyfeiriad e-bost a chreu cyfrinair



Unwaith y byddwch wedi cofrestru, bydd hyn yn mynd â chi drwodd at dudalen sylwadau lle gallwch roi teitl i'ch sylw, nodi'r sylw a dewis pwy all weld eich sylw.




Yna bydd y sylw yn cael ei anfon at y gweinyddwyr pwyllgorau i'w awdurdodi ac yn dilyn hyn byddant yn ymddangos nesaf at yr eitem ar y rhaglen sy'n weladwy i'r opsiwn a ddewiswyd.

I danysgrifio i ddiweddariad dewiswch 'Ychwanegu sylw am eitem X' ac yna dewiswch 'Tanysgrifio i ddiweddariadau am sylwadau ar yr eitem hon'.